# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 4

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cofrestru*

### 35 Dyletswydd i fod yn gofrestredig

(1) Rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy fod wedi ei gofrestru gydag ACC.

(2) Rhaid i berson sy'n bwriadu cyflawni gweithrediadau trethadwy ond nad yw wedi ei gofrestru—

(a) gwneud cais ysgrifenedig i ACC i gael ei gofrestru, a

(b) gwneud hynny o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y diwrnod y mae'r person yn dechrau cyflawni gweithrediadau trethadwy.

(3) Rhaid i ACC gofrestru'r person os yw wedi ei fodloni bod y cais—

(a) yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan ACC i gofrestru'r person, a

(b) ar y ffurf a bennir gan ACC (os o gwbl).

(4) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person am ei benderfyniad ar y cais.

(5) Os yw ACC yn cofrestru'r person, rhaid i'r hysbysiad nodi cofnod y person yn y gofrestr.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 35. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 35(1) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 35(2)-(5) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 35.